

SL(6)314 – Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2023

Cefndir a diben

Mae gan rai tenantiaethau amaethyddol hawliau olynu. Yn yr achosion hyn, o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986, gall perthynas agos i'r tenant ymadawedig neu'r tenant sy'n ymdeol, wneud cais i'r Tribiwnlys Tir Amaethyddol (ALT) am gyfarwyddyd ynghylch a oes gan y perthynas hawl i olynu'r denantiaeth. Mae un o'r profion i sefydlu hawl i olynu yn golygu bodloni'r Tribiwnlys Tir Amaethyddol nad yw'r ymgeisydd eisoes yn meddiannu "uned fasnachol o dir amaethyddol" yn rhywle arall. Pe bai hyn yn wir, ni fyddai'r perthynas agos yn gymwys i gael olyniaeth awtomatig.

Mae'r Gorchymyn hwn yn nodi ffigurau o ran incwm amaethyddol sy'n gysylltiedig ag amrywiol weithgareddau ffermio, ac a ddefnyddir i benderfynu a yw'r tir o dan sylw yn 'uned fasnachol o dir amaethyddol' yn y cyfnod perthnasol.

Y Gorchymyn sydd mewn grym ar hyn o bryd yw Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2021 sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 12 Medi 2020 a 11 Medi 2021. Mae'r Gorchymyn hwn yn cwmpasu dau gyfnod, o 12 Medi 2021 i 11 Medi 2022 ac o 12 Medi 2022 i 11 Medi 2023.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.

Yn erthygl 1(2), yn y testun Cymraeg, mae'r diffiniad a gyfieithwyd mewn italig o "Reoliad 1307/2013" yn anghywir, gan ei fod yn nodi "(Rheoliad 17/2013)" [*ychwanegwyd pwyslais*]. Dylai gyd-fynd â'r diffiniad y mae'n ei gyfieithu, a nodi "(Rheoliad 1307/2013)".



Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Pwynt Craffu Technegol 1:

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod, yn erthygl 1(2) o'r testun Cymraeg, fod y diffiniad wedi ei gyfieithu sydd mewn italig o "Rheoliad 1307/2013" yn anghywir ac yn darllen (Rheoliad 17/2013) nid (Rheoliad 1307/2013). Mae'r Llywodraeth yn derbyn nad yw'r hepgoriad hwn yn ddelfrydol, ond ar ôl ystyried y mater, mae'r Llywodraeth yn teimlo na fyddai'n briodol gwneud diwygiad na chywiriad i gywiro'r gwall.

Ein rheswm dros ddod i'r casgliad hwn yw bod y gwall yn un amlwg, ac nid oes unrhyw bosibilrwydd y gallai llys na rhywun sy'n defnyddio'r ddeddfwriaeth ddehongli'r cyfeiriad mewn unrhyw ffordd arall heblaw'r hyn a fwriadwyd. Mae'r Llywodraeth o'r farn nad yw'r gwall yn ddigon dryslyd y byddai'n werth ei gywiro ac mae yn teimlo bod yr ystyr yn amlwg er gwaethaf y gwall. Mae'r Llywodraeth yn diolch i'r Pwyllgor am dynnu ei sylw at yr hepgoriad. Fodd bynnag, am y rhesymau a nodir uchod, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu gadael yr offeryn fel ag y mae.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 6 Chwefror 2023 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

